OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 125 (Cy. 30)

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *31 Ionawr 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 24(11) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017(**1**).

Yn unol ag adran 79(2) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018.

**Diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017**

**2.** Mae Atodlen 5 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff 7(a), ar ôl "y prynwr" mewnosoder "neu briod neu bartner sifil y prynwr";

(b) ym mharagraff 16(a), ar ôl "y prynwr" mewnosoder neu briod neu bartner sifil y prynwr".

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymr

31 Ionawr 2018

(**1**) 2017 dccc 1.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") er mwyn ymestyn cwmpas yr eithriadau i'r cyfraddau sy'n gymwys i drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch a ddarperir gan baragraffau 7 ac 16.

Mae paragraff 7 yn darparu nad yw trafodiad yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch pan fo'r prif fuddiant y mae'r prynwr yn ei gaffael yn fuddiant ychwanegol yn ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa. Gall trafodiad o'r fath godi pan geir trosglwyddiad ecwiti gan un o gydberchnogion yr annedd. Mae paragraff 16 o Atodlen 5 i'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth gyfatebol pan fo'r prynwr yn caffael nifer o anheddau fel rhan o un trafodiad.

Mae rheoliad 2 yn diwygio paragraffau 7 ac 16 er mwyn ymestyn cwmpas yr eithriadau. Mae'r diwygiadau yn sicrhau bod prynwr yn gallu dibynnu ar yr eithriadau a ddarperir gan baragraffau 7 ac 16 mewn achosion pan fo'r prynwr hwnnw yn caffael prif fuddiant mewn eiddo ac—

(a) yn union cyn y dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith, bod priod neu bartner sifil y prynwr yn berchen ar brif fuddiant yn yr un annedd; a

(b) mai'r annedd honno fydd unig breswylfa neu brif breswylfa'r prynwr yn union cyn ac ar ôl y dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.